Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru

Medi 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |

This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cyflwyniad

1. Mae’r ddogfen hon yn diweddaru’r fersiwn flaenorol o’r Fframwaith Asesu Ansawdd (Gorffennaf 2022) i ystyried newidiadau i’r Cod Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, a Chyngor Ansawdd y DU. Bydd yn dod i rym ar 1 Awst 2025.

Medr

2. Daeth y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) yn weithredol ar 1 Awst 2024, gyda chyfrifoldeb am oruchwylio’r sector addysg drydyddol yng Nghymru (h.y. addysg bellach (AB), addysg uwch (AU), prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, lleoliadau chweched dosbarth) ac ymchwil ac arloesi a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-16.

3. Mae holl swyddogaethau a chyfrifoldebau CCAUC wedi trosglwyddo i Medr. Tan 1 Awst 2026 bydd Medr yn parhau i weithredu pwerau ansawdd CCAUC i oruchwylio ansawdd darpariaeth addysg uwch. Felly dylid darllen cyfeiriadau at CCAUC yn y ddogfen hon fel cyfeiriadau at Medr lle y bo’n briodol. Bydd Medr yn datblygu fframwaith ansawdd ar gyfer darpariaeth ôl-16 maes o law, yng nghyd-destun y system reoleiddiol newydd.

Y Fframwaith Asesu Ansawdd

4. Mae'r Fframwaith Asesu Ansawdd (QAF) ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru yn nodi'r mecanweithiau a ddefnyddir gan CCAUC i roi sicrwydd iddo'i hun bod ansawdd addysg, neu gwrs addysg, a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig yn bodloni anghenion y rhai sy'n ei dderbyn. Mae'n disgrifio sut y mae CCAUC yn rhoi ystyriaeth i'w gyfrifoldeb statudol dros sicrhau bod asesiad yn cael eu cynnal o'r ddarpariaeth a gynigir gan neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig, a sut y gallwn gael sicrwydd ynghylch ansawdd pan fydd sefydliad yn gwneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad.

5. Bydd y Fframwaith yn parhau i gael ei ddiweddaru fel bo'n briodol, gan ystyried gweithgarwch ymgynghori, felly ***cyfrifoldeb defnyddwyr fydd sicrhau eu bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf***. Wrth gyhoeddi diweddariadau, byddwn yn nodi hynny'n glir ar ein gwefan.

6. Mae CCAUC wedi cael cadarnhad bod y Fframwaith yn ateb gofynion y Swyddfa Gartref ar gyfer goruchwyliaeth addysgol. Mae hyn yn golygu bod sefydliadau rheoleiddiedig yn ateb y gofynion ansawdd ar gyfer trwyddedau noddi myfyrwyr.

## Cefndir

7. Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015) yn nodi ymyriadau sy’n gymwys lle mae CCAUC wedi’i argyhoeddi bod ansawdd addysg neu gwrs a ddarperir gan neu ar ran sefydliad rheoleiddiedig yn annigonol, neu’n debygol o ddod yn annigonol, i ddiwallu anghenion rhesymol myfyrwyr. Manylir ar y rhain yn Natganiad Ymyrryd CCAUC. Bydd yr agweddau ar Ddeddf 2015 sy’n ymwneud ag ansawdd a Datganiad Ymyrryd CCAUC yn dal i fod yn eu lle tan 1 Awst 2026,

pan fydd y gofrestr newydd yn dod i rym, fel a nodir dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

### Cymharedd ar lefel y DU

8. Bydd y Fframwaith Asesu Ansawdd yn cyflawni cymharedd ar lefel y DU trwy'r mecanweithiau cyffredin canlynol:
   - Safonau gradd cyffredin, trwy fod yn gyson â'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd;
   - Sicrhau bod y ddarpariaeth ym mhob gwlad yn gyson â rhan 1 yn y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd;
   - Defnyddio sicrwydd allanol ac annibynnol ynghylch ansawdd a safonau;
   - Dull trosfwaol cyffredin o gynnal trefniadau rheoleiddio a goruchwylio sy'n sicrhau bod addysg uwch yn y DU yn rhoi profiad addysgol o ansawdd da a deilliannau rhagorol i fyfyrwyr.

9. Wrth ddatblygu'r Fframwaith hwn mae CCAUC wedi monitro, a bydd yn parhau i fonitro, datblygiadau mewn rhannau eraill o'r DU i werthuso unrhyw effaith ar Gymru. Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i Asesu Ansawdd (QA) yng Nghymru'n effeithio'n andwyol ar enw da'r ddarpariaeth yn rhyngwladol.

10. Mae'r Cyngor Ansawdd ar gyfer addysg uwch (QCUK) yn dwyn ynghyd bedair gwlad y DU ar faterion sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau mewn addysg uwch. Mae'n amcanu at:
    - hybu ansawdd addysg uwch yn y DU a'i amddiffyn yn gadarn a darparu tystiolaeth i ategu hyn;
    - gweithredu ar ran y sector addysg uwch, yn enwedig mewn cyfnodau o her a newid;
    - adeiladu cefnogaeth a chydnabyddiaeth i arweinyddiaeth addysg uwch y DU mewn ansawdd yn rhyngwladol;
    - goruchwylio'r ymrwymiad ar y cyd yn y DU i egwyddorion ansawdd a mabwysiadu dull DU gyfan, gan ddathlu'r hyn sy'n gyffredin ar draws gwledydd a systemau rheoleiddwyr;
    - gweithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr, gyda rheoleiddwyr ac ar draws gwledydd cynrychioli amrywiaeth y sector.

    Cynrychiolir Medr ac addysg uwch yng Nghymru yn y Cyngor Ansawdd.

### Nodweddion allweddol

11. Mae nodweddion allweddol y fframwaith asesu ansawdd ar gyfer Cymru fel a ganlyn:
    (i) Cysondeb â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer Addysg Uwch;
    (ii) Ffocws ym mhrosesau adolygu darparwyr eu hunain ar wella deilliannau myfyrwyr a phrofiad academaidd myfyrwyr;
    (iii) Pwyslais ar rôl cyrff llywodraethu ar gyfer darparu sicrwydd ynghylch materion ansawdd a safonau;

(iv) Defnydd systematig o ddata myfyrwyr a data arall gan gyrff cyllido a rheoleiddio i fonitro perfformiad darparwyr;
(v) Cysylltu effeithiol rhwng, a chyn lleied â phosibl o ddyblygu gyda, mecanweithiau sicrwydd eraill CCAUC;
(vi) Mwy o ffocws ar wella, yn enwedig trwy'r adolygiadau ansawdd allanol.

**Egwyddorion**

12. Mae egwyddorion y fframwaith fel a ganlyn. Mae'r system asesu ansawdd:

(i) Yn seiliedig ar awtonomiaeth darparwyr addysg uwch â phwerau dyfarnu graddau i bennu a chynnal safonau academaidd, ac ar gyfrifoldeb yr holl ddarparwyr i bennu a darparu'r profiad academaidd mwyaf priodol ar gyfer eu myfyrwyr ble bynnag a sut bynnag y maent yn astudio;
(ii) Yn defnyddio adolygiadau cymheiriaid a chraffu allanol priodol fel elfen graidd o ddulliau asesu a sicrhau ansawdd;
(iii) Yn cynnwys myfyrwyr mewn modd integredig fel partneriaid wrth ddylunio, gweithredu, monitro ac adolygu prosesau i wella ansawdd eu haddysg;
(iv) Yn darparu atebolrwydd, gwerth am arian, a sicrwydd hawdd i'w ddeall i fyfyrwyr, ac i gyflogwyr, y llywodraeth a'r cyhoedd, mewn meysydd sydd o bwys i'r rhanddeiliaid hynny, mewn perthynas â darparwyr unigol, staff, ac ar draws y sector cyfan;
(v) Yn sefydlu diwylliant o wella, gyda sefydliadau'n mynd ati'n rheolaidd i werthuso effaith gweithgareddau gwella ansawdd sefydliadol a chydweithredol;
(vi) Yn gweithio'n dda ar gyfer cenadaethau, a mathau o ddarparwyr, mwyfwy amrywiol a gwahanol, ac yn sicrhau bod darparwyr yn gallu arbrofi ac arloesi o ran eu cyfeiriad strategol neu o ran eu dulliau dysgu ac addysgu;
(vii) Yn mabwysiadu dull seiliedig-ar-risg a seiliedig-ar-dystiolaeth lle mae cydreoleiddio yn y cwestiwn i sicrhau bod craffu rheoleiddiol yn canolbwyntio ar y meysydd lle mae'r risg, neu'r potensial ar gyfer risg, i safonau a/neu i brofiad academaidd myfyrwyr neu'r system ar ei m/fwyaf;
(viii) Yn ymyrryd yn gynnar ac yn gyflym ond yn gymesur pan fo pethau'n mynd o chwith;
(ix) Yn rhoi cymorth i ddarparwyr newydd neu lai aeddfed, gan sicrhau ar yr un pryd bod y trothwy ar gyfer mynediad i'r sector wedi'i osod ar lefel sy'n ddigonol ar gyfer profiad academaidd o ansawdd da yn ôl yr hyn sy'n briodol a safonau graddau sicr;
(x) Yn defnyddio sylfaen dystiolaeth gadarn i sicrhau bod cyfleoedd i wella'n barhaus yn cael eu hadnabod gan yr holl ddarparwyr a'u bod yn manteisio ar y cyfleoedd hynny;
(xi) Yn cynnal, hyd y gellir mewn system ddatganoledig, ddull sy'n cwmpasu'r DU gyfan;
(xii) Yn gwarchod enw da'r system addysg uwch yng Nghymru mewn cyd-destun byd-eang;
(xiii) Yn sicrhau bod cost a baich y system asesu ansawdd a'r system sicrwydd ehangach ar y cyfan yn gymesur.

### Gofynion rheoleiddiol sylfaenol

13. Mae'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol yn elfen graidd o'r dull o asesu ansawdd addysg uwch yng Nghymru. Bydd y llinell sylfaen yn cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau ei bod yn dal i fod yn briodol mewn ymateb i ddatblygiadau yng ngwahanol wledydd y DU.

14. Mae'r gofynion sylfaenol fel a ganlyn:
    (i) Y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch;
    (ii) Egwyddorion y cytunwyd arnynt ar gyfer y sector yng Nghod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch ynghyd â datganiadau o nodweddion a datganiadau o feincnodau pynciol, lle y bo'n briodol;
    (iii) Cysondeb â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru;
    (iv) Gofynion o ran y Gymraeg;
    (v) Y Cod Llywodraethu Addysg Uwch neu God llywodraethu da ColegauCymru ar gyfer sefydliadau yng Nghymru, fel y bo'n briodol;
    (vi) Gofynion cynaliadwyedd ariannol, rheoli a llywodraethu CCAUC a'i genhadaeth a'i strategaeth ar gyfer darpariaeth addysg uwch;
    (vii) Rhwymedigaethau'r darparwyr dan gyfraith defnyddwyr, fel a nodir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd;
    (viii) Y canllawiau a nodir yn Fframwaith Arfer Da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

15. Caiff gofynion (i) i (iii) eu profi trwy'r adolygiad ansawdd allanol mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg sefydliadau (ac mae hynny felly'n ymgorffori rhai agweddau ar ofyniad (iv), sydd hefyd yn rhan o gylch gwaith Comisiynydd y Gymraeg). Mae CCAUC yn asesu gofynion (v) a (vi) trwy ei brosesau sicrwydd. Atgoffir sefydliadau o'u rhwymedigaethau mewn perthynas â chyfraith defnyddwyr a phrofiad myfyrwyr (gofynion (vii) ac (viii)).

### Materion trawsbynciol

16. Mae materion trawsbynciol yn cynnwys:
    - Yr angen i warchod yr ymdeimlad o ddull ansawdd ar gyfer y DU gyfan, hyd y gellir mewn amgylchedd datganoledig gyda safbwyntiau polisi mwyfwy amrywiol;
    - Yr angen i sicrhau y cydymffurfir yn barhaus â disgwyliadau ansawdd rhyngwladol, yn enwedig yn Ewrop;
    - Rôl hanfodol myfyrwyr fel partneriaid wrth ddylunio a gweithredu trefniadau asesu ansawdd.

### Y Fframwaith

17. Mae'r Fframwaith yn cynnwys:
    - Porth ar gyfer mynediad i sefydliadau sy'n dymuno dod yn ddarparwyr rheoleiddiedig am y tro cyntaf, neu ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad;

- Trefniadau i ddarparwyr sefydledig, gan adeiladu ar ddulliau sefydledig a phrofedig o ran meincnodi a dadansoddi data, casglu gwybodaeth (gan gynnwys gan fyfyrwyr), asesu risgiau, a sicrwydd;
- Trefniadau wedi'u cryfhau i sicrhau safonau graddau a'u cymharedd rhesymol ledled y DU, dan arweiniad cyrff sy'n cynrychioli'r sector;
- Ymyriad wedi'i deilwra ond cyflym lle y bo angen;
- Gwarchod enw da rhyngwladol brand addysg uwch y DU, gan gynnwys trwy adolygu addysg drawswladol.

18. Mae cynrychiolaeth o'r fframwaith ar gael yn Ffigur 1. Mae angen i ddarparwyr sy'n dymuno dod yn rhai rheoleiddiedig fynd trwy adolygiad Porth er mwyn dod yn ddarparwyr rheoleiddiedig am y tro cyntaf, neu ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad. Unwaith y maent yn ddarparwyr rheoleiddiedig, mae pob agwedd ar y Fframwaith yn berthnasol i ddarparwyr. Nid yw'r prosesau mewn unrhyw drefn benodol. Darperir rhagor o wybodaeth am bob agwedd isod.

**Ffigur 1. Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru**

| Fframwaith Asesu Ansawdd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Porth** | **Trefniadau i ddarparwyr sefydledig** | **Ymyriad wedi'i deilwra ond cyflym** | **Safonau Gradd a Chymharedd** | **Enw Da Rhyngwladol** |
| • Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru | • Trefniadau adolygu seiliedig- ar-risg<br>• Craffu ar ddata<br>• Sicrwydd blynyddol gan y corff llywodraethu<br>• Ymweliadau bob tair blynedd<br>• Gweithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr | • Proses gwynion CCAUC<br>• Canllawiau<br>• Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC<br>• Datganiad Ymyrryd | • Gwaith ar Safonau Graddau<br>• Uniondeb academaidd<br>• Arholi allanol, datblygiad proffesiynol a chalibro | • Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd<br>• Goruchwylio darpariaeth drawswladol |

**Porth mynediad i sefydliadau sy'n dymuno dod yn ddarparwyr rheoleiddiedig am y tro cyntaf, neu ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad**

19. O 2017/18, mae'n ofynnol i sefydliadau gael Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru gan gorff a nodir gan CCAUC, ar hyn o bryd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch. Efallai y bydd sefydliad sy'n cwblhau adolygiad porth yn llwyddiannus yn dymuno ymgeisio am ddynodiad penodol.

20. Fel arfer, bedair blynedd [1] ar ôl yr adolygiad porth cychwynnol, gall y sefydliad gomisiynu adolygiad porth pellach. Os yw'r adolygiad hwn yn llwyddiannus, yna ystyrir bod y sefydliad wedi ateb gofynion sicrhau ansawdd CCAUC cyn ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad[2]. Os yw sefydliad yn llwyddiannus gyda chais

[1] Os oes gan sefydliad adolygiad blaenorol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, efallai y bydd hwn yn ateb rhai o'r gofynion – mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghylchlythyr W17/40HE

[2] Rhaid i ymgeiswyr am Gynllun Ffioedd a Mynediad fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusen. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am eu hyfywedd ariannol hefyd ynghyd â'r trefniadau ar gyfer trefnu a rheoli eu materion ariannol.

am Gynllun Ffioedd a Mynediad yna bydd gan ei fyfyrwyr ar raglenni AU amser llawn fynediad at y pecyn llawn o gymorth i fyfyrwyr israddedig.

**Trefniadau i ddarparwyr sefydledig**

21. Yng Nghymru, ystyrir bod sefydliadau rheoleiddiedig yn ddarparwyr sefydledig. Mae’r trefniadau ar gyfer y darparwyr hyn yn ymgorffori: trefniadau adolygu seiliedig-ar-risg; craffu ar ddata; sicrwydd blynyddol gan y corff llywodraethu; ymweliadau bob tair blynedd; a monitro’r trefniadau partneriaeth rhwng y corff myfyrwyr ac addysg uwch. Gall craffu gynnwys ansawdd y ddarpariaeth ar lefel rhaglenni neu gyrsiau, lle y bo’n briodol ac yn ymarferol.

<u>Trefniadau adolygu seiliedig-ar-risg</u>

22. O 2022/23 bydd CCAUC yn comisiynu adolygiadau ansawdd allanol cylchol ar gyfer darparwyr addysg uwch rheoleiddiedig gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) yn y lle cyntaf. Yn y dyfodol, bydd rhaid i Medr bennu ei drefniadau ei hun ar gyfer sicrwydd.

23. Bydd y cylch adolygu’n cynnwys blwyddyn segur, i hwyluso proses o fyfyrio, a ffocws ar wella ansawdd, ar lefel sefydliadol, ledled Cymru gyfan, ac mewn cydweithrediad gyda’r Alban a Gogledd Iwerddon.

24. Fel arfer mae’n ofynnol i sefydliadau rheoleiddiedig gael adolygiad ansawdd allanol o leiaf bob pum mlynedd. Mae’r adolygiad yn ceisio gwerthuso newidiadau o’i gymharu â’r llinell sylfaen, yn hytrach na mynd ati’n barhaus i ailbrofi yn erbyn y llinell sylfaen, ac mae hefyd yn cynnwys ffocws mwyfwy cryf ar wella, gan adeiladau ar drefniadau blaenorol.

25. Mae’r gofyniad ar gyfer adolygiad ansawdd allanol yn mynd i’r afael â chyfrifoldebau statudol CCAUC am sicrhau asesiad ansawdd o addysg a ddarperir gan a/neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig. Mae’n darparu’r sicrwydd sy’n ofynnol dan Ddeddf 2015 o ran ansawdd, i alluogi Cynlluniau Ffioedd a Mynediad i gael eu cymeradwyo, ac felly i sefydliadau rheoleiddiedig gael mynediad at gymorth i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau israddedig a TAR amser llawn. Mae’r ffocws ar wella’n adeiladu ar arfer cyfredol ond yn mynd i’r afael â rhwymedigaethau statudol o ran gwella ansawdd y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno dan Medr.

26. Rhaid i’r adolygiad ansawdd allanol gydymffurfio â gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer adolygiadau o’r fath. Mae’r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd yn galluogi darparwyr addysg uwch i ddangos ansawdd a chynyddu tryloywder, gan helpu i feithrin ymddiriedaeth rhyngddynt i gyd a chydnabyddiaeth well i’w cymwysterau, rhaglenni a darpariaeth arall. Defnyddir y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd gan sefydliadau ac asiantaethau sicrhau ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop fel dogfen gyfeirio ar gyfer systemau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol mewn addysg uwch.

27. Bydd angen i sefydliadau rheoleiddiedig hysbysu CCAUC yn gyson ynghylch unrhyw ddeilliannau anffafriol o adolygiad / arolygiad gan Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRB). Bydd CCAUC yn penderfynu, fesul achos unigol, yn unol â'n prosesau cyhoeddedig, a ddylai'r deilliannau hyn sbarduno ein gweithdrefnau ansawdd annigonol. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth gan CCAUC i'r canlynol:
- gredu bod ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch yn annigonol, neu'n debygol o ddod yn annigonol [3];
- pa un a oes goblygiadau ar gyfer y sefydliad yn ei gyfanrwydd, a hefyd swm y ddarpariaeth y mae'r deilliant hwn yn effeithio arni [4];
- pa un a yw'n briodol i CCAUC gymryd camau pellach, gan ddibynnu ar faint y broblem, ac effaith hyn mewn perthynas â chenhadaeth a chynaliadwyedd y sefydliad [5].

28. Os ydym ni'n meddwl bod goblygiadau sefydliadol difrifol, byddwn yn ystyried a yw darpariaeth y sefydliad yn dod o dan ein cyfrifoldebau statudol ynghylch ansawdd sy'n annigonol, neu'n debygol o ddod yn annigonol, ac felly a oes angen i ni ddilyn ein Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg, a/neu roi'r Datganiad Ymyrryd ar waith.

29. Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion adolygu ar gael ar ein gwefan. Mae cylchlythyr W19/05HE yn nodi ym mha fodd y mae barnau adolygiadau'n goleuo'r asesiad o risg.

Craffu ar ddata

30. Mae CCAUC yn craffu ar ddata, barn myfyrwyr a gwybodaeth arall, a'r wybodaeth a gesglir trwy brosesau atebolrwydd blynyddol CCAUC. Gwneir cryn dipyn o hyn trwy brosesau sicrwydd CCAUC, fel a nodir yn y Cod Rheolaeth Ariannol.

31. Mae'r data y mae CCAUC yn ei ystyried mewn perthynas â'i gyfrifoldebau rheoleiddiol yn cynnwys:
- Patrymau gor-recriwtio/tanrecriwtio;
- Cyfraddau'r rhai nad ydynt yn camu ymlaen;
- Cyfraddau'r rhai nad ydynt yn cwblhau;
- Deilliannau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr;
- Deilliannau graddau;
- Deilliannau gwahaniaethol ar gyfer myfyrwyr â nodweddion gwahanol;
- Deilliannau cyflogaeth.

32. Bydd dadansoddi hefyd yn cynnwys adnabod tueddiadau mewn data, ynghyd â hanesion sefydliadau, a'r cyd-destun y mae addysg uwch yn gweithredu ynddo.

---

[3] Wrth wneud hynny, bydd CCAUC yn defnyddio diffiniadau'r cyrff hynny o ansawdd (h.y. eu diffiniad hwy o ansawdd digonol/annigonol neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny).
[4] Mewn rhai achosion efallai mai dim ond ar lefel pwnc y bydd y materion yn berthnasol, ond mewn achosion eraill gallai fod goblygiadau ar gyfer y sefydliad cyfan.
[5] Efallai y bydd yn briodol i ni barhau i ymgysylltu â'r hyn y mae'r corff sy'n arolygu / adolygu'n ei wneud nesaf (ail-adolygu, ail-arolygu, a.y.b.).

Fodd bynnag, ni fydd unrhyw farnau ynglŷn ag ansawdd darpariaeth yn cael eu ffurfio ar sail defnyddio data yn unig.

33. Bydd defnyddio data yn y ffordd yma'n ei gwneud yn bosibl adnabod materion sy'n ymwneud â grwpiau gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldebau 2010. Mae Pwyllgor Asesu Ansawdd (QAC) CCAUC[6] yn ystyried y data hwn ar gyfer sefydliadau rheoleiddiedig ac yn rhoi cyngor ynghylch materion sy'n codi. Mae hyn yn cynnwys ystyried lle mae sefydliadau wedi cyflawni deilliannau sydd uwchlaw'r meincnod, a lle gellid rhannu arfer da. Bydd cyngor gan y Pwyllgor Asesu Ansawdd yn goleuo barnau ym mhroses adolygu risg sefydliadol CCAUC a phenderfyniadau a wneir gan y Cyngor.

Sicrwydd blynyddol gan y corff llywodraethu

34. Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu sefydliadau rheoleiddiedig ddarparu sicrwydd blynyddol ar gyfer CCAUC mewn perthynas ag ansawdd. Byddir yn gofyn iddynt gadarnhau'r datganiadau canlynol yn flynyddol.

1 Mae'r corff llywodraethu wedi cael adroddiad sy'n ystyried yr adolygiad ansawdd allanol, ac mae cynllun gweithredu wedi cael ei sefydlu a'i roi ar waith fel y bo'n briodol, mewn partneriaeth gyda'r corff myfyrwyr.

2 Mae'r methodolegau a ddefnyddiwyd fel sail i wella profiad academaidd myfyrwyr a deilliannau myfyrwyr, hyd y gwyddom, yn gadarn ac yn briodol.

3 a) *Ar gyfer darparwyr â phwerau dyfarnu graddau*: Mae safonau'r dyfarniadau yr ydym ni'n gyfrifol amdanynt wedi cael eu pennu a'u cynnal yn briodol.
b) *Ar gyfer darparwyr heb bwerau dyfarnu graddau*: Mae safonau'r dyfarniadau yr ydym ni'n gyfrifol amdanynt wedi cael eu cynnal yn briodol.

4 Mae'r corff llywodraethu wedi ystyried adroddiad ar y ddeialog flynyddol rhwng y sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr neu gorff cyfatebol, wedi craffu ar ddeilliannau arolygon myfyrwyr ac wedi cadarnhau bod cynlluniau gweithredu wedi cael eu sefydlu a'u rhoi ar waith, mewn partneriaeth gyda'r corff myfyrwyr.

5 Mae'r corff llywodraethu wedi cael copi o'r cytundeb ar y berthynas rhwng y sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr neu gorff cyfatebol, a chopi o'r siarter myfyrwyr, y mae'r ddau ohonynt wedi cael eu hadolygu yn y flwyddyn ddiwethaf.

6 Mae gan y corff llywodraethu oruchwyliaeth effeithiol ar ddeilliannau graddau ac uniondeb academaidd.[7]

35. Mae'r datganiadau hyn ar y cyd wedi'u bwriadu i sicrhau bod y sefydliad yn cynnal ffocws priodol ar wella ac ar weithio mewn partneriaeth gyda'r corff

---

[6] Mae Pwyllgor Ansawdd Medr yn disodli'r Pwyllgor Asesu Ansawdd.
[7] Yn berthnasol i ffurflenni a gyflwynir o 2021/22 ymlaen, sy'n adrodd ar weithgarwch yn y flwyddyn academaidd flaenorol.

myfyrwyr. Os nad yw corff llywodraethu'n gallu darparu'r sicrwydd hwn, yna gall hyn ddynodi bod y ddarpariaeth yn annigonol (neu'n debygol o ddod yn annigonol).[8] Bydd CCAUC yn triongli'r datganiadau hyn fel rhan o'r ymweliadau sicrwydd bob tair blynedd (gweler isod), a bydd deilliannau'n cael eu hystyried o fewn y broses Adolygu Risg Sefydliadol a'r broses Cynllunio Ffioedd a Mynediad.

Ymweliadau bob tair blynedd

36. Mae CCAUC yn gweithredu elfen sicrhau ansawdd fel rhan o'r ymweliadau sicrwydd bob tair blynedd â sefydliadau. Mae hyn yn goleuo ymweliadau sefydliadol y Cyngor a phrosesau ymgysylltu a sicrwydd eraill. Mae hefyd yn goleuo ein proses adolygu risg sefydliadol, y ceir cyngor yn ei chylch gan y Pwyllgor Asesu Ansawdd, a'r llythyr risg blynyddol at y darparwr wedi hynny. Mae CCAUC hefyd yn defnyddio gwybodaeth o'r ymweliadau hyn wrth asesu Cynlluniau Ffioedd a Mynediad a gwybodaeth fonitro. Mae ein hymgysylltiad â sefydliadau yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn yn seiliedig ar risg ac yn gymesur.

37. Mae'r ymweliad bob tair blynedd yn golygu ymweld â'r sefydliad a chynnal cyfarfodydd ar wahân gyda'r canlynol:
- Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr;
- Aelodau'r Corff Llywodraethu;
- Aelodau'r uwch dîm rheoli, gan gynnwys staff â chyfrifoldeb am ansawdd.

38. Mae'r ymweliad yn rhoi cyfle i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth am ei weithgareddau gwella, er mwyn dangos sut y mae'n diwallu anghenion newidiol myfyrwyr. Wedi hynny mae CCAUC yn llunio adroddiad, a ddarperir ar ffurf fersiwn ddrafft ar gyfer y sefydliad i'w galluogi i amlygu materion o gywirdeb. Darperir yr adroddiad terfynol ar gyfer y Pwyllgor Asesu Ansawdd i gael cyngor, ar gyfer y Cyngor i oleuo'i weithgarwch ymgysylltu â sefydliadau, ac ar gyfer yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i oleuo'r adolygiad ansawdd allanol.

39. Mae CCAUC yn disgwyl i gorff llywodraethu'r sefydliad ystyried yr adroddiad hwn ar y cyfle cyntaf posibl.

Gweithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr

40. Mae trefniadau partneriaeth rhwng y corff myfyrwyr a darparwyr addysg uwch yng Nghymru wedi datblygu'n dda. Mae hyn yn darparu ystod o gyfleoedd i fyfyrwyr godi materion sy'n ymwneud ag ansawdd, gan gynnwys trwy adolygiad sefydliadol, prosesau'r sefydliad ei hun, y corff llywodraethu, neu'n uniongyrchol gyda CCAUC.

41. Rôl y corff llywodraethu ddylai casglu barn myfyrwyr fod, a rhaid iddo ddangos sut y mae wedi gwneud hyn ar adeg cyflwyno cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad.

42. Yng Nghymru, cyflawnir partneriaeth gyda myfyrwyr trwy'r canlynol:
   (i) Cynrychiolaeth o blith y myfyrwyr ar y corff llywodraethu a phwyllgorau sefydliadol perthnasol;

[8] Mae gwybodaeth am hyn ar gael yn y Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg [Ansawdd - Medr]

(ii) Adroddiad ar y ddeialog flynyddol rhwng y sefydliad a'r corff myfyrwyr, e.e. trwy'r adroddiad ansawdd blynyddol (AQR). Mae'n arfer da bod y corff myfyrwyr yn diffinio yn y ddogfen beth yw ei ganfyddiad am ansawdd ac anghenion rhesymol myfyrwyr9;

(iii) Gofynion bod gan bob sefydliad rheoleiddiedig siarter myfyrwyr;

(iv) Cadarnhad bod canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr wedi bod trwy broses graffu a bod cynlluniau gweithredu wedi cael eu sefydlu mewn partneriaeth gyda'r corff myfyrwyr;

(v) Cynnwys myfyrwyr fel adolygwyr cymheiriaid mewn adolygiadau ansawdd allanol, a thrwy ymgysylltu â'r corff myfyrwyr trwy'r adolygiad allanol;

(vi) Ymgysylltu â'r corff myfyrwyr trwy'r ymweliadau sicrwydd bob tair blynedd gan CCAUC.

Hefyd, ar y cyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae myfyrwyr:

(vii) yn aelodau o Gyngor Ansawdd y DU i oruchwylio dulliau sy'n cwmpasu'r DU gyfan lle mae ansawdd yn y cwestiwn;

(viii) yn gallu hysbysu ynghylch pryderon am ddarparwr unigol ar gyfer ymchwiliad trwy fecanwaith cwynion CCAUC[10].

43. Mae angen i sefydliadau myfyrwyr sicrhau eu bod yn cynrychioli'r corff myfyrwyr amrywiol, er mwyn sicrhau bod anghenion pob math o fyfyriwr yn cael eu hystyried yn briodol yn eu hymgysylltiad â'r prosesau hyn, ac â gwaith i ddatblygu Cynlluniau Ffioedd a Mynediad.

## Ymyriad wedi'i deilwra ond cyflym lle y bo angen

Gweithdrefnau cwynion

44. Mae'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol yn cynnwys y canllawiau a nodir yn Fframwaith Arfer Da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Mae hwn yn sicrhau bod achwynwyr unigol nad ydynt yn fodlon ar ganlyniad cwynion neu apeliadau a gyflwynwyd i'w sefydliadau'n gallu eu cyflwyno gerbron corff annibynnol.

45. Mae CCAUC wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer Cwynion am sefydliadau (gan gynnwys pryderon ynghylch safonau ac ansawdd). Mae'r broses yn galluogi unrhyw un sy'n ymwybodol o faterion sy'n ymwneud ag ansawdd addysg yn ôl y diffiniad dan Adran 18(2) Deddf 2015 (h.y. ansawdd sy'n annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol) i godi'r rhain yn uniongyrchol gyda CCAUC.

46. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â safonau a phrofiad academaidd myfyrwyr. Rhaid bod y mater yn effeithio, neu'n un sydd â'r potensial i effeithio, ar grŵp o fyfyrwyr yn hytrach nag unigolyn hefyd. Hefyd, fel arfer dylai'r mater fod wedi cael ei godi trwy weithdrefnau'r sefydliad ei hun, cyn codi cwyn gyda CCAUC.

---

[9] Gall CCAUC ofyn am gopïau o'r dogfennau hyn cyn ymweliadau bob tair blynedd

[10] Fel arfer bydd angen i achwynwyr gwblhau gweithdrefnau cwynion y sefydliad cyn codi unrhyw faterion gyda CCAUC. Mae pwerau CCAUC yn cwmpasu materion systematig o ran ansawdd. Gall myfyrwyr godi unrhyw bryderon eraill gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Ar gyfer dysgwyr - Medr

47. Yn y lle cyntaf, bydd swyddogion CCAUC yn gwneud pa bynnag waith yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol mewn perthynas â chwynion ynglŷn ag ansawdd. Gall hyn gynnwys ymchwiliad rhagarweiniol i'r mater, os ystyrir bod hynny'n briodol. Os ystyrir bod angen ymchwiliad ansawdd llawn, yna fel arfer bydd CCAUC yn atgyfeirio'r mater at yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Bydd yr ymchwiliad yn arwain at adroddiad, a fydd yn cael ei gyhoeddi fel arfer ar wefan CCAUC o fewn 30 diwrnod i'w ryddhau. Mae CCAUC yn gweithio gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i gysoni ymchwiliadau i ansawdd anfoddhaol â dulliau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

48. Lle mae sefydliadau'n meddwl bod rheswm dros gredu bod ansawdd darpariaeth yn annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol fel a ganfuwyd trwy eu prosesau hwy eu hunain gan gynnwys trwy gwynion, rhaid iddynt drin hyn fel digwyddiad hysbysadwy, a hysbysu CCAUC cyn gynted â phosibl.

Canllawiau

49. Hefyd, dan Ddeddf 2015, mae gan CCAUC y pŵer i gyhoeddi neu gymeradwyo canllawiau ynghylch materion sy'n berthnasol i wella neu gynnal ansawdd addysg a ddarperir gan (neu ar ran) sefydliadau rheoleiddiedig. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ynghylch materion y bydd CCAUC yn eu hystyried wrth benderfynu a yw ansawdd addysg yn annigonol (neu'n debygol o ddod yn annigonol). Rhaid i CCAUC ymgynghori ynghylch canllawiau o'r fath, y mae'n rhaid iddynt gael eu hystyried wedyn gan gyrff llywodraethu sefydliadau rheoleiddiedig.

Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC

50. Mae Pwyllgor Asesu Ansawdd (QAC) CCAUC yn cynghori CCAUC ynghylch materion sy'n ymwneud ag ansawdd sy'n annigonol (neu'n debygol o ddod yn annigonol) fel a nodir yng Nghylchlythyr W19/05HE. Mae hyn yn cynnwys cynghori ynghylch canllawiau cyn ymgynghori, ac ynghylch materion sy'n codi trwy brosesau eraill megis Cynllunio Ffioedd a Mynediad, adolygu bob tair blynedd, neu ymgysylltiadau eraill â sefydliadau. Lle y bo'n berthnasol, gall ein Pwyllgor Asesu Ansawdd ddarparu sicrwydd ar gyfer pwyllgorau eraill megis y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Pwyllgor Rheoleiddio, sy'n goruchwylio prosesau rheoleiddio cysylltiedig. Mae Pwyllgor Ansawdd Medr yn disodli QAC.

Datganiad Ymyrryd CCAUC

51. Mae Datganiad Ymyrryd CCAUC yn nodi ymyriadau sy'n berthnasol lle mae CCAUC wedi'i argyhoeddi bod ansawdd yr addysg, neu gwrs addysg penodol, a ddarperir gan neu ar ran sefydliad rheoleiddiedig yn annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae ymyriadau ffurfiol yn cynnwys y gallu i ddyroddi Cyfarwyddyd mewn Perthynas ag Ansawdd Annigonol i'r corff llywodraethu, yn ei gyfarwyddo i gymryd camau (neu beidio â chymryd camau) i wella ansawdd yr addysg neu gwrs, neu i atal ansawdd yr addysg neu gwrs rhag dod yn annigonol. Hefyd, gall CCAUC gymryd camau gweithredu i unioni'r sefyllfa trwy Fesurau Eraill mewn Perthynas ag Ansawdd Annigonol. Gellir defnyddio'r Mesurau Eraill hyn i roi cyngor neu

gynhorthwy i gorff llywodraethu'r sefydliad er mwyn gwella ansawdd yr addysg neu gwrs, neu i atal ansawdd yr addysg neu gwrs rhag dod yn annigonol.

**Trefniadau wedi'u cryfhau i sicrhau safonau graddau a'u cymharedd rhesymol ledled y DU, dan arweiniad cyrff sy'n cynrychioli'r sector**

Safonau graddau

52. Caiff gwaith yn y maes hwn ei ystyried gan QCUK, sy'n cynghori ynghylch cynnydd a deilliannau, ac yn amcanu at sicrhau bod gwerth cymwysterau ledled y DU yn cael ei gynnal. Mae hyn yn cynnwys ceisio deall gwelliant graddau o'i gymharu â chwyddiant graddau. Hyd yma mae gwaith yn y maes hwn wedi cynnwys:
- Gwaith gan Universities UK a GuildHE ar Ddeall Algorithmau Graddau;[11]
- Egwyddorion ar gyfer Dylunio Algorithmau Graddau Effeithiol;
- Cyhoeddi Dosbarthiad Graddau'r DU: Datganiad o fwriad;[12]
- Cyhoeddi Atodiad D i'r Fframweithiau Cymwysterau gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, sy'n darparu disgrifiadau dosbarthu deilliannau ar gyfer cymwysterau ar lefel 6.

53. Mae datganiad o fwriad y DU yn mynegi ymrwymiad i warchod gwerth graddau'r DU, a lofnodwyd gan grwpiau cynrychiolaidd y sector ac a gymeradwywyd gan Bwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd. Trwy'r datganiad hwn mae sefydliadau'n ymrwymo i:
- Sicrhau bod asesiadau'n parhau i estyn a herio myfyrwyr;
- Adolygu ac egluro sut y cyfrifir dosbarthiadau graddau terfynol;
- Cefnogi a chryfhau'r system arholwyr allanol;
- Adolygu a chyhoeddi data a dadansoddiad ar ddeilliannau graddau myfyrwyr.

54. Mae'r ddogfen yn cadarnhau bod y datganiad, yng Nghymru, yn cael ei ddiogelu trwy'r Fframwaith Asesu Ansawdd ac elfennau o'r adolygiad ansawdd allanol. Mae sefydliadau rheoleiddiedig yng Nghymru wedi cyhoeddi datganiadau sy'n disgrifio canlyniadau adolygiad mewnol o safonau graddau. Mae CCAUC yn annog sefydliadau i baratoi proffiliau dosbarthu graddau sy'n nodi unrhyw dueddiadau meintiol mewn deilliannau graddau dros bum mlynedd, gan ddadansoddi nodweddion myfyrwyr a'r cymysgedd o bynciau, ac i gynnwys y rhain mewn rhifynnau o ddatganiadau am ddeilliannau graddau sefydliadol yn y dyfodol, ynghyd ag ystyried y canllawiau diweddaraf gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Dylai'r datganiadau hyn gael eu cyhoeddi a'u hadolygu yn dilyn unrhyw newidiadau sylweddol a nodwyd mewn deilliannau graddau a/neu mewn algorithmau graddau.

[11] Gan ddarparu enghraifft o ddadansoddiad: Degree classification in 2019-20
[12] Ac adolygiadau o gynnydd, e.e. Protecting the value of UK degrees: reviewing progress, yn ogystal ag astudiaethau achos

Uniondeb academaidd

55. Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd wedi cydlynu gwaith ar felinau traethodau, twyllo trwy gontract a llên-ladrad, gan gynnwys y Siarter Uniondeb Academaidd, y mae'r holl ddarparwyr addysg uwch rheoleiddiedig yng Nghymru wedi ymrwymo iddi. Mae hyn yn cynnwys cefnogi 7 egwyddor y Siarter, i helpu darparwyr i ddatblygu eu polisïau a'u harferion eu hunain. Yr egwyddorion yw:

- Mae'r holl aelodau o gymuned darparwr addysg uwch yn gyfrifol am wreiddio a chynnal uniondeb academaidd;
- Mabwysiadu dull 'cymuned gyfan' holistaidd, sy'n cwmpasu'r holl ddarpariaeth.
- Cydweithio fel sector;
- Ymgysylltu â myfyrwyr a'u grymuso;
- Grymuso staff ac ymgysylltu â hwy;
- Bod â pholisïau ac arferion sefydliadol cyson ac effeithiol;
- Cymryd cyfrifoldeb fel sefydliadau awtonomaidd am hybu a chynnal ansawdd ac uniondeb y ddarpariaeth, a diogelu safonau academaidd dyfarniadau.

56. Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd hefyd yn rhoi cymorth i Rwydwaith Uniondeb ac Asesu Cymru, sy'n cael ei gadeirio gan y sector, ac yn cyfrannu at Rwydwaith Uniondeb Academaidd y DU sy'n perthyn i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

Arholwyr Allanol

57. Mae CCAUC, y Swyddfa Fyfyrwyr a'r Adran Gyflogaeth yng Ngogledd Iwerddon wedi cyllido gwaith Ymlaen AU ar arholi allanol, gan gynnwys gwybodaeth am ddatblygiad proffesiynol a chalibro. Fe arweiniodd hyn at ddatblygu cwrs datblygiad proffesiynol i arholwyr allanol. Mae CCAUC yn annog sefydliadau i ymgysylltu â'r rhaglen datblygiad proffesiynol hon.

58. Mae Universities UK, GuildHE a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn gweithio i gynorthwyo sefydliadau i adolygu a gwella'u harferion arholi allanol. Mae hyn yn cynnwys agweddau megis:

- Defnydd mwy cyson o safonau a gydnabyddir gan y sector a fframweithiau cenedlaethol a chyfeiriad mwy cyson at y rhain
- Mwy o ddefnydd o ddata a gwybodaeth gyd-destunol, a ategir gan hyfforddiant
- Adolygu'r meini prawf cymhwystra a'r cymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer penodi arholwyr allanol;
- Mwy o dryloywder a chysondeb i sefydliadau mewn prosesau ar gyfer ymateb i adroddiadau arholwyr allanol;
- Cyngor ar fanyleb ofynnol o weithgareddau y dylai arholwyr allanol eu cyflawni ac y dylid ymgynghori â hwy yn eu cylch;
- Pennu gofynion o ran cynnwys a fformat ar gyfer hyfforddi a datblygu arholwyr allanol.

59. Mae UUK a GuildHE wedi datblygu set o egwyddorion ar gyfer arholwyr allanol hefyd, yr anogir sefydliadau i ymrwymo iddynt.

### Gwarchod enw da rhyngwladol brand addysg uwch y DU, gan gynnwys trwy sicrhau ansawdd addysg drawswladol

60. Cyflawnir hyn yn rhannol trwy gynnull Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd, sy’n darparu goruchwyliaeth ar lefel y DU gyfan ar y gofynion rheoleiddiol sylfaenol cyffredin.

61. Mae’r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd wedi datblygu dull ar gyfer gwerthuso a gwella ansawdd addysg drawswladol yn y DU. Mae pob sefydliad rheoleiddiedig yng Nghymru sydd â darpariaeth addysg uwch mewn unrhyw wlad a adolygir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd wedi ymrwymo i gyfranogi mewn adolygiad rhyngwladol. Bydd hwn yn gymesur â’r math o ddarpariaeth, ac felly gallai cyfranogiad amrywio, gan gynnwys opsiynau megis ymweliadau adolygu, astudiaethau achos, a gwerthusiad desg. Mewn achosion eithriadol efallai y bydd CCAUC yn cytuno na ddylid cynnwys darparwr, er enghraifft am nad yw darpariaeth wedi’i sefydlu’n llawn eto.

### Gwybodaeth ychwanegol

62. Fel a nodir uchod, bydd Medr yn datblygu fframwaith ansawdd sy’n cwmpasu’r holl ddarpariaeth ôl-16. Bydd hwn yn dod i rym o 1 Awst 2026. Yn y cyfamser, bydd prosesau a dulliau CCAUC yn dal i fod yn berthnasol [fel a nodir yng Ngorchymyn Cychwyn 4 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022]. Bydd adolygiad o wybodaeth ychwanegol sy’n ofynnol ar gyfer addysg uwch i ddehongli a chymhwyso’r fframwaith trosfwaol yn cael ei ystyried yn dilyn cyhoeddi Fframwaith Ansawdd Medr.

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government